# Grŵp Gwybodaeth Tai – papur diweddaru
# Medi 2019

Mae rhestr lawn o'n cyhoeddiadau diweddaraf ar gael ar ein tudalennau i ddod.

## 1. Ystadegau tai

### Cyhoeddiadau diweddar

- Datganiad blynyddol 2018-19 Adeiladu tai Newydd – 6 Mehefin 2019
- Datganiad blynyddol 2018-19 Gwerthiannau Tai Cymdeithasol – 11 Gorffennaf 2019
- Cymorth i Brynu Cymru Ebrill i Mehefin 2019 (prif ganlyniadau) – 24 Gorffennaf 2019
- Digartrefedd, 2018-19 (datganiad blynyddol) – 25 Gorffennaf 2019
- Stoc Tai Landlordiaid Cymdeithasol a Rhent 2018-19 (datganiad blynyddol) – 8 Awst 2019
- Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd ar gyfer Cymru, 2018 – 29 Awst 2019
- Adeiladu Tai Newydd, Ebrill i Mehefin 2019 – (prif ganlyniadau) 12 Medi 2019.
- Digartrefedd, Ebrill i Mehefin 2019 (prif ganlyniadau) – 26 Medi 2019.

### Cyhoeddiadau i ddod

- Safon Ansawdd Tai Cymru, 2018-19 (datganiad blynyddol) – 3 Hydref 2019
- Darpariaeth Tai Fforddiadwy, 2018-19 (datganiad blynyddol) – 17 Hydref 2019
- Cymorth i Brynu – Cymru, Gorffennaf i Medi 2019 (prif ganlyniadau) – 24 Hydref 2019
- Adeiladu Tai Newydd, Gorffennaf i Medi 2019 – (prif ganlyniadau) – 5 Rhagfyr 2019
- Digartrefedd, Gorffennaf i Medi 2019 (prif ganlyniadau) – 12 Rhagfyr 2019
- Tai a gafodd eu dymchwel 2018-19 (canlyniadau blynyddol) – 18 Rhagfyr 2019
- Peryglon mewn Tai a thrwyddedau 2018-19 – 18 Rhagfyr 2019

Mae pob datganiad ar gael o wefan ystadegau ac ymchwil.

**Grŵp Ystadegau Tai Trawslywodraethol**

Mae'r Grŵp Ystadegau Tai Trawslywodraethol (CGHSG) wedi cyhoeddi ei gynllun gwaith newydd ar gyfer 2019-20.

Noder y gwnaeth ONS gyhoeddi 4 adnodd traws-lywodraethol bore ddoe (17 Medi) yn ymwneud ag ystadegau digartrefedd a chysgu allan. Mae'r cyhoeddiadau yn ffurfio rhan o brosiect traws-lywodraethol i wella cydlyniad yr ystadegau a gynhyrchir ar ddigartrefedd ar draws y DU. (Fe ganfu gwaith blaenorol nad yw datblygu diffiniad cyson o ddigartrefedd yn ymarferol yn y tymor byr ac felly mae angen arweiniad gwell ar ddefnyddwyr data ar gyfer ystadegau presennol).

- Digartrefedd y DU: 2005 i 2018 (Saesneg yn unig)

  Erthygl ystadegol yn canolbwyntio ar ddigartrefedd, gan ddod â ffynonellau data llywodraethau presennol at ei gilydd o ar draws Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, er mwyn asesu cymaroldeb a chydlyniad y DU.

- Adnodd rhyngweithiol ar gyfer digartrefedd (fersiwn beta, Saesneg yn unig)

  Adnodd rhyngweithiol sy'n galluogi defnyddwyr i archwilio sut y caiff digartrefedd ei ddiffinio ar draws pedair gwlad y DU ac archwilio proses ymgeisydd drwy systemau digartrefedd y pedair gwlad.

- Gwella ystadegau digartrefedd a chysgu allan ar draws y DU (Saesneg yn unig)

  Mae'r erthygl yma yn disgrifio mentrau ar draws Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS) i wella ystadegau digartrefedd a chysgu allan yn y DU, hyd at a gan gynnwys Cyfrifiad 2021.

- Y darlun syn datblygu o ddigartrefedd a chysgu allan y DU (Saesneg yn unig)

  Blog Ystadegau Cenedlaethol sy'n dod â chyhoeddiadau at ei gilydd a'u cydgysylltu.

Gofynnir am adborth ar yr adnoddau - anfonwch eich sylwadau at gsshelp@statistics.gov.uk

**Digartrefedd**

Mae Dr Ian Thomas (Prifysgol Caerdydd) wrthi'n cynnal prosiect sy'n ystyried dichonoldeb cyflwyno trefniadau i gasglu, cyhoeddi a dadansoddi data ar lefel unigol mewn perthynas â digartrefedd statudol yng Nghymru. Caiff y prosiect ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru a CaCHE. Disgwylir i'r adroddiad cychwynnol ar y canfyddiadau gael ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn.

## Amcangyfrifon o'r Angen a'r Galw am Dai

Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru erthygl ystadegol ar Amcangyfrifon o'r angen am dai yng Nghymru ar lefel genedlaethol a rhanbarthol (yn seiliedig ar 2018).

Ar 5 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ail erthygl ystadegol gan rannu'r amcangyfrifon o'r angen am dai yn ddwy ddeiliadaeth tai:

- Tai'r farchnad (perchennog ddeiliad a'r sector rhentu preifat)
- Tai fforddiadwy (rhenti canolradd a chymdeithasol).

Mae'r ffigurau a roddir yn yr erthygl hon yn amcangyfrif yr angen am unedau tai ychwanegol yn ôl deiliadaeth ar sail set o dybiaethau. Dim ond ar gyfer y 5 mlynedd gyntaf o amcangyfrifon (2018/19 i 2022/23) y ceir rhaniad yn ôl deiliadaeth.

## Y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai

### Y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai

Ym mis Mai gwnaethom gyhoeddi Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd ar gyfer Cymru (prif ganlyniadau): 2018. Diben yr adroddiad hwn oedd cyhoeddi a defnyddio'r prif ffigurau cyn gynted â phosibl, gan mai yn 2010 y cafodd yr amcangyfrifon llawn blaenorol eu cyhoeddi ac roeddent yn seiliedig ar Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008.  Ddiwedd mis Awst, gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad manwl o Amcangyfrifon tlodi tanwydd Cymru 2018. Ar 26 Medi, mae disgwyl i ni gyhoeddi adroddiad a thablau cysylltiedig Arolwg Cyflwr Tai Cymru (Effeithlonrwydd Ynni Anheddau) Ebrill 2017-Mawrth 2018. Caiff canlyniadau'r adroddiadau hyn eu trafod yn ystod y cyfarfod nesaf.

Mae gwaith i sicrhau bod data Arolwg Cyflwr Tai Cymru nad yw'n datgelu hunaniaeth unigolion ar gael ar Archif Data'r DU yn mynd rhagddo, a bydd data manylach ar gael yn uniongyrchol gan dîm yr Arolwg, o dan drwydded arbennig.

### Adnodd Dadansoddi’r Stoc Dai i Gymru

Ar ôl llunio fersiwn prawf cysyniad o Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai yn 2018, arafodd y gwaith yn yr hydref er mwyn canolbwyntio ar ddadansoddi canlyniadau Arolwg Cyflwr Tai Cymru. Mae'r gwaith ar Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai bellach wedi ailddechrau ac rydym yn gweithio gydag Uned Ymchwil Data Gweinyddol Llywodraeth Cymru i gyflwyno achosion busnes i SYG ar rannu data perthnasol o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol. Caiff data presennol Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai eu symud i'r llwyfan gwe-letya hirdymor (Llwyfan e-Ymchwil Diogel yn y DU) yn ystod y misoedd nesaf. Mae cytundeb ar waith gyda Phrifysgol Abertawe ar gyfer y llwyfan hwn a bydd cryn bwyslais ar greu ein strwythurau llywodraethu ein hunain yn seiliedig ar hyn. Byddwn yn ceisio ychwanegu gwybodaeth am ddefnydd ynni, mesuryddion deallus a mesuryddion rhagdalu gan yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BEIS) ac yn ymgysylltu â darparwyr tai cymdeithasol er mwyn cael gafael ar eu data rheoli stoc.

## 2. Ymchwil tai

Cafodd yr adroddiadau canlynol eu cyhoeddi ers y diweddariad diwethaf.

Deall achosion o droi allan o dai cymdeithasol yng Nghymru

Mae'r ymchwil yn edrych ar y cyfraddau presennol o droi allan o fewn tai cymdeithasol, y rhesymau dros droi allan, a'r cymorth a roddir i atal pobl rhag cael eu troi allan ledled Cymru.

Adroddiad Terfynol yr Adolygiad o'r Polisi Rhenti

Mae'r adroddiad yn cynnig cipolwg ar p'un ai yw’r polisi rhenti yn addas i'w bwrpas ac yn cyflawni ei amcanion gwreiddiol. Yn arbennig yng nghyd-destun datblygiadau allanol. Yn benodol yng nghyd-destun datblygiadau allanol.

Gwerthusiad o wasanaethau digartrefedd i bobl ifanc yn yr ystad ddiogeledd

Asesodd yr ymchwil sut mae newidiadau i ddyletswyddau deddfwriaethol tuag at y rhai sy’n gadael y ddalfa wedi cael eu gweithredu ac effaith gychwynnol y newidiadau hyn.

Mae'r prosiectau ymchwil canlynol ar waith:

- Mae Adolygiad o Angen Blaenoriaethol yng Nghymru yn mynd rhagddo. Bydd hwn yn adolygu sut y caiff Angen Blaenoriaethol ei weithredu ar hyn o bryd, ond bydd hefyd yn ystyried opsiynau posibl ar gyfer newid. Caiff effaith pob opsiwn ar awdurdodau lleol, darparwyr tai, y trydydd sector a'r rhai sy'n cael cymorth tai ei hasesu.
- Mae gwaith ymchwil ar y defnydd o lesddaliadau yn mynd rhagddo. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn nodi ac yn ystyried profiadau lleddeiliaid o brynu eiddo llesddaliadol a byw ynddo; ac yn llywio dealltwriaeth o'r ffordd y mae llesddaliadau wedi cael eu rhoi ar waith a'u defnyddio'n ymarferol.
- Mae gwaith ymchwil i ddeall Cymorth Tai i'r rhai sydd ag Anabledd Dysgu yn mynd rhagddo. Nod y gwaith ymchwil fydd deall y ffordd y caiff y cymorth hwn ei strwythuro ledled Cymru, y rhesymau pam bod gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol, a'r newidiadau i lefelau cyllid dros amser.
- Mae gwaith i ddatblygu opsiynau ar gyfer fformiwla ariannu ar gyfer y Grant Cymorth Tai yn mynd rhagddo. Mae'r prosiect yn cynnwys adolygu fformiwlâu ariannu presennol i ddeall cryfderau a gwendidau; deall yr ystyriaethau allweddol ar gyfer datblygu fformiwlâu o safbwynt rhanddeiliaid a darparwyr gwasanaethau awdurdod lleol; a datblygu opsiynau ar gyfer fformiwla dyrannu cyllid newydd gyda rhanddeiliaid.

Mae'r holl adroddiadau ar ymchwil tai ar gael o'r wefan ystadegau ac ymchwil.

### Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru

Y llynedd, gwnaeth Gweinidogion gomisiynu'r Grŵp Cynghori annibynnol ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru y llynedd i edrych ar sut y gellid lleihau allyriadau carbon mewn tai yng Nghymru erbyn 2050. Mae'r Grŵp, a gaiff ei gadeirio gan Christopher Jofeh, sef cyn-arweinydd ôl-osod adeiladau byd-eang Arup, wedi ystyried y dystiolaeth ar sut y gellir creu'r amodau angenrheidiol i lwyddo.

Cyhoeddwyd adroddiad 'Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell' ym mis Gorffennaf ac mae'n cydnabod yr heriau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â gwneud tai yn wyrddach ac yn fwy ynni effeithlon. Bydd y Gweinidog Tai yn ystyried argymhellion a chamau gweithredu manwl yr adroddiad ac yn ymateb iddynt yn ystod yr hydref.

## 3. Cynllunio

### Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Cafodd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori ar 7 Awst, gyda dyddiad cau o 1 Tachwedd 2019.

Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft yn cynnwys polisïau ar dai, yn benodol ar dai fforddiadwy a rhanbarthol (Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, a De-ddwyrain Cymru). Mae'r polisïau hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r angen am dai a gafodd eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn gynharach eleni (gweler uchod).

Mae mwy o fanylion am y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gael ar dudalennau gwe'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

### Adolygiad o ddarparu tai drwy'r system gynllunio

Cynhaliwyd cam cyntaf yr adolygiad hwn, sef y 'Cais am Dystiolaeth', rhwng 18 Gorffennaf a 10 Hydref y llynedd. Ystyrir y camau nesaf, yn seiliedig ar gyflawni'r egwyddorion cyffredinol canlynol, ar hyn o bryd:

- Mae’n rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio yn unol â chynllun datblygu cyfredol – sef y dull rheoli datblygu ar sail cynllun;
- Mae’n rhaid pennu’r gofyn am dai yn unol â’r dystiolaeth, ac mae’n rhaid dangos bod modd darparu’r tai ar yr holl safleoedd a nodir;
- Mae’n rhaid i drefniadau monitro a’r camau gweithredu cysylltiedig gryfhau’r dull rheoli datblygu ar sail cynllun.

## 4. Ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru

### Ystadegau tai: ar agor

Nid oes unrhyw ymgyngoriadau ar agor ar hyn o bryd ar ystadegau Tai.

### Tai ac adfywio: wedi cau'n ddiweddar

Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai

Ymgynghoriad ar safonau gwasanaeth ar gyfer addasiadau i dai. Nod y safonau hyn yw sicrhau mwy o gysondeb o ran yr hyn a ddarperir. Byddant yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau a therapyddion galwedigaethol. Caeodd yr ymgynghoriad ar 19 Rhagfyr 2018 ac mae'r holl ddogfennau cysylltiedig ar gael drwy ddilyn y ddolen uchod.

Rhoi'r newid i Gyfradd y Comisiwn ar Gartrefi mewn Parciau ar waith

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar sut mae rhoi'r penderfyniad i ostwng cyfradd y comisiwn ar gartrefi mewn parciau ar waith. Caeodd yr ymgynghoriad ar 14 Rhagfyr 2018 ac mae'r holl ddogfennau cysylltiedig ar gael drwy ddilyn y ddolen uchod.

### Cynllunio: ar agor

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft

Ymgynghoriad ar ein cynllun datblygu newydd a fydd yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru rhwng 2020 a 2040. Mae'n mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys y canlynol:

- cynnal a datblygu economi sy'n ffynnu;
- datgarboneiddio;
- datblygu ecosystemau gwydn;
- gwella iechyd a lles ein cymunedau.

### Tlodi Tanwydd: yn yr arfaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun trechu tlodi tanwydd drafft ym mis Hydref, a chaiff y cynllun terfynol ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2020.

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Medi 2019